# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 26 Chwefror 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Polisïau Iechyd

**C11 David Lloyd:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ddatblygiad cyffredinol polisïau iechyd y Cynulliad? (OAQ15831)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Cynllun i ddatblygu'r GIG yng Nghymru ymhellach yw 'Gwella Iechyd yng Nghymru'; mae'n cael ei weithredu yn awr. Mae'n datblygu ac ategu'r seiliau a osodwyd gan 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru', a ddisgrifiodd strategaeth i weithredu'n genedlaethol, rhanbarthol a lleol i atal afiechydon a hybu iechyd.

### Polisïau Economaidd a Chymdeithasol

**C12 Pauline Jarman:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y camau y mae'r Cynulliad wedi eu cymryd i sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa o'i bolisïau economaidd a chymdeithasol? (OAQ15838)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae 'Cymru'n Ennill' yn rhoi cyfeiriad newydd i economi Cymru. Ein strategaeth yw sicrhau mwy o ffyniant ledled Cymru dros y degawd nesaf a sicrhau nad oes yr un rhan o Gymru ar ei cholled. Ategir hyn gan y cymorth ariannol ychwanegol sydd ar gael yn ardal Amcan 1, y Gorllewin a'r Cymoedd, a chanddi 65 y cant o boblogaeth Cymru. Bydd cynllun gofodol Cymru yn darparu fframwaith clir i sicrhau y datblygir yr economi yn gytbwys, yn ogystal â sicrhau cynhwysiant cymdeithasol ac amgylchedd o ansawdd dda.

Mae gan ein polisïau adnewyddu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol ran bwysig i'w chwarae wrth ddylanwadu ar gyfeiriad strategol y polisïau a'r rhaglenni i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol ledled Cymru ar lefel gymunedol, yn benodol drwy'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

### Datblygu Polisïau

**C13 Geraint Davies:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn monitro'r ffordd y mae safbwyntiau pobl Cymru'n cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau yn y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ15839)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym wedi ymrwymo i gynnwys y cymunedau â diddordeb a'r cyhoedd wrth lunio polisi, ac yn cymryd camau i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mor agos at y sawl yr effeithir arnynt ag y bo modd.

Yr ydym yn cyflwyno, yn ffurfiol, y sylwadau a wnaed i bob ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y bydd ein ffordd o ymdrin â'r sylwadau yn ein polisïau terfynol yn dryloyw ac agored i'w harchwilio.

### Dogfen Strategol 'Cynllun i Gymru 2001'

**C14 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r ymrwymiadau yn y ddogfen strategol 'Cynllun i Gymru 2001'? (OAQ15832)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae ‘Cynllun i Gymru 2001’ yn pennu agenda a thargedau polisi strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y tymor canolig. Yr ydym yn gwneud gwaith da ym mhob maes.

Yn y sesiwn hon, fe geir mwy o gynnydd ym mhob maes gan gynnwys rhoi ‘Cymru’n Ennill’ ar waith, sef ein cynllun 10-mlynedd i drawsnewid economi Cymru.

**Penderfyniadau ar Offerynnau Ysgrifenedig**

**C15 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru amlinellu’r meini prawf a ddefnyddiwyd gan y weinyddiaeth i bennu a fydd offerynnau ysgrifenedig unigol yn gyfarwyddiadau deddfwriaethol neu an-neddfwriaethol? (OAQ15841)

**Prif Weinidog Cymru:** Un prawf sylfaenol yw gofyn a yw’r cyfarwyddiad yn creu cyfraith, neu’n sefydlu trefn weithredu a allai ddod â chanlyniadau cyfreithiol yn ei sgîl. Yn achos y cyntaf, fe fydd yn ddeddfwriaethol, ac yn yr ail fe fydd yn weinyddiaethol. Yn aml mae’r cyfarwyddiadau’n gyfyngedig a chanddynt effaith weinyddiaethol.